GLYNN VIVIAN DYSGU-LEARNING

# Bywluniadu Gartref:

# Laura Ford a’r Espaliered Girl



Laura Ford: *Espaliered* Girl. 2008. Print. Oriel Gelf Glynn Vivian

Caiff coed gwyntyllaidd eu siapio a'u trin gan y garddwr fel nad oes angen llawer o le arnynt ac er mwyn cael cymaint â phosib o gynnyrch. Ni chaniatawyd i’r coed hyn dyfu'n naturiol - yn hytrach, fe’u gorfodwyd i gydymffurfio â gofynion yr amgylchedd lle maent wedi'u plannu. Yng ngwaith Laura Ford, *Espaliered Girl*, rhoddir y gwyliwr mewn sefyllfa anghyfforddus am fod yn rhaid iddo gymharu'r ffordd rydym yn defnyddio natur â'r pŵer sydd gan gymdeithas batriarchaidd wrth lywio bywydau menywod ifanc.

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

Friends of the Glynn Vivian

Cyngor Abertawe Swansea Council

Os yw gwaith Ford yn ceisio herio anghydraddoldeb rhyw yn uniongyrchol, mae hefyd yn tynnu sylw at ein perthynas â natur. Os nad ydym yn gyfforddus yn gweld tyfiant y ferch yn cael ei gyfyngu yn y ffordd hon, mae'n anochel y byddwn yn troi ein sylw at y goeden yn y pen draw. Yn yr ystyr hwn, mae Ford yn crybwyll cwestiwn llawer ehangach, sef pa effaith ydyn ni'n ei chael ar y byd naturiol, wrth ei orfodi i gydymffurfio â'n ffordd ni o fyw?

Ar eiliad pan fo’r byd o'n cwmpas yn llonydd, mae'r byd naturiol yn dal i droi. Er ein bod ni, fel y ferch yn y llun *Espaliered Girl*, yn byw dan gyfyngiadau, mae'n bosib teimlo gwerthfawrogiad o’r newydd am ryddid a llais byd natur.

**Bywluniadu yn y Cartref - Her 1:** Tynnwch lun sy'n dangos y byd naturiol yn adennill ei le: Er enghraifft, blodyn yn tyfu yn y bwlch rhwng y cerrig palmant. Dyma gyfle gwych i gyferbynnu patrymau a gweadau.

**Bywluniadu yn y Cartref - Her 2:** Mae darlun Ford yn ein hatgoffa o'r llun enwog o Alys yn tyfu drwy'r tŷ yn ystod ei Hanturiaethau yng Ngwlad Hud. Allwch chi dynnu llun drwy gyfuno'ch hun â gwrthrych arall, boed yn blanhigyn, yn llysieuyn neu'n fwyn? Meddyliwch am yr hyn y gallwch ei ddefnyddio, ac ysgrifennwch nodyn ar eich llun sy'n esbonio pam y dewisoch chi’r gwrthrych hwn.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

FRIENDS OF THE GLYNN VIVIAN

Cyngor Abertawe
Swansea Council